PAPUR WYTHNOSOL YR ANNIBYNWYR CYMRAEG

# Y TYST

Sefydlwyd 1867 Cyfrol 155 Rhif 51/52 Rhagfyr 22/29, 2022 50c.

## CYFLWYNO MEDAL GEE AM WAITH ARBENNIG




Cyflwynwyd Medal Thomas a Suzanna Gee er Anrhydedd i'r Parchg Tom Defis am ei holl waith dros y blynyddoedd yn cefnogi ysgolion Sul, yng nghwrdd chwarter Annibynwyr Gorllewin Cymru yng nghapel Blaen-y-coed, ger Cynwyl Elfed. Bu Tom yn aelod o'r Cyngor Ysgolion Sul, ac mae'n bwyllgorwr ymarferol (yn cario llyfrau ac offer amrywiol o fan i fan), ac yn gadeirydd y Cyngor hefyd.

Roedd Nigel Davies, a dderbyniodd y Fedal er Anrhydedd llynedd, hefyd yn bresennol. Dywedodd iddo gwrdd â Tom Defis gyntaf flynyddoedd yn ôl pan fynegodd ei awydd i drefnu cwis Beiblaidd i ysgolion Sul. Croesodd eu llwybrau yn gyson byth ers hynny, a phan oedd Nigel Davies yn gweithio i'r Mudiad Ieuenctid Cristnogol (MIC) yn Sir Gâr, bu Tom yn gefnogol iawn iddo yn ei awydd i blant Cymru glywed am Iesu Grist, a bod o fewn cyrraedd i ysgol Sul. Ar ran plant Cymru, a phlant Sir Gâr yn arbennig, diolchodd am ei ymroddiad ac amser i'r gwaith.

Mynegodd Aled Davies, cyfarwyddwr y Cyngor Ysgolion Sul, ei gefnogaeth i bopeth a ddywedodd Nigel, cyn rhoi'r fedal am wddf Tom Davies, a chyflwyno copi o *Gwyddoniadur y Beibl*, Cyhoeddiadau'r Gair iddo. Diolchodd Tom am y cyfleoedd a gafodd drwy fod yn rhan o'r gwaith, a nodi ei falchder mai ym Mlaen-y-coed, eglwys ei fagwraeth, y derbyniodd y fedal, gan ganmol yr eglwys am gynnal ysgol Sul llwyddiannus o hyd.

## Cyfarchion

**Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i holl ddarllenwyr *Y Tyst* gan staff Tŷ John Penri. Bydd Tŷ John Penri yn ailagor ar ddydd Mawrth 3 Ionawr, 2023.**



## Neges Nadolig ein Llywydd

Cafodd Iesu ei eni ym Methlehem am i'w rieni fynd yno ar orchymyn cyfrifiad Rhufeinig. Mae canlyniadau'r cyfrifiad presennol, sy'n dangos dirywiad iaith a chrefydd yng Nghymru, yn her i ninnau fynd ar daith hefyd i chwilio am obaith newydd i'n cenedl, meddai'r Parchg Beti-Wyn James, Llywydd Undeb yr Annibynwyr Cymraeg yn ei neges Nadolig.



'Ar hyd y canrifoedd mae Cristnogaeth a'r iaith Gymraeg wedi cynnal ei gilydd. Er bod hi'n gyfnod digon tywyll ar ein crefydd a'n hiaith ni, mae'r Nadolig yn amser i ddathlu dyfodiad y goleuni mawr i dywyllwch y byd – ymgnawdoliad y Duw sydd wedi cynnal y genedl fach hon, er gwaethaf pawb a phopeth, tan heddiw.

'Ar drothwy'r Nadolig felly, rwy'n apelio ar bawb a fagwyd ar aelwyd Gristnogol Gymraeg, ond sydd wedi troi i ffwrdd oddi wrth grefydd, i ddathlu eu ffydd deuluol trwy fynd i oedfa mewn capel neu eglwys yn ystod yr ŵyl. Mae'r un apêl hefyd i'r rheini ymhlith y filiwn a chwarter o bobl Cymru sy'n dal i ystyried eu hunain yn Gristnogion, ond nad ydynt o bosib yn mynychu addoldy.

'Mewn pentrefi a chymunedau gwledig, y cadarnleoedd ieithyddol gynt sydd nawr yn cael eu chwalu, nid yw'n rhy hwyr i droi'r addoldy lleol unwaith eto yn gaer i Gymreictod yn ogystal ag i Grist. Bydded i ysbryd rhyfeddol y Nadolig roi i ni'r weledigaeth a'r awydd i adeiladu dyfodol mwy disglair i'n cymunedau a'n cenedl.'

Fe aeth y neges allan i'r wasg a'r cyfryngau wythnos ddiwethaf, ac ar fideo ar lwyfannau cymdeithasol yr Undeb.

# Newyddion Da'r Nadolig

*Darllena 1 Timotheus, pennod 2, adnod 5*

Mae Nadolig yn ei gyfanrwydd yn ymwneud â newyddion da. Ond nid newyddion da am anrhegion arbennig yw e. Nid newyddion da am bryd arbennig yw e. Nid hyd yn oed newyddion da am dreulio amser gyda theulu a ffrindiau yw e. Newyddion Da am gariad Duw yw'r Nadolig.

**Ar goll**

Mae'r Beibl yn dweud ein bod ar goll heb Dduw. Dŷn ni'n ddigyfeiriad. Does gennym ddim amddiffyniad. Mae ein heffaith dragwyddol bosibl ar y byd heb ei gwireddu. Dŷn ni heb lawenydd go iawn. Nid yw ein tragwyddoldeb yn y Nefoedd yn ddiogel. Y Newyddion Da am y Nadolig yw bod Duw wedi anfon Iesu i ddod o hyd i ac achub y colledig. Mae'r Beibl yn dweud, 'Mae am iddyn nhw ddeall mai un Duw sydd, ac mai dim ond un person sy'n gallu pontio'r gagendor rhwng Duw a phobl. Iesu'r Meseia ydy hwnnw, ac roedd e'n ddyn.' (1 Timotheus, pennod 2, adnod 5 *beibl.net*)

**Iachawdwriaeth**

Os wyt ti wedi treulio amser yn yr eglwys rwyt ti'n debygol o fod wedi clywed y Gair 'iachawdwriaeth' sawl gwaith. Ond falle nad wyt ti'n deall beth yw ei ystyr. Mae'r gair fel diemwnt, rwyt yn gallu edrych arno o sawl cyfeiriad.

- Daeth Iesu i'n hachub. Dŷn ni ddim yn gallu datrys ein holl broblemau ein hunain. Heb Iesu dyn ni wedi ein trapio yn nisgwyliadau eraill. Dŷn ni wedi ein trapio'n byw am gymeradwyaeth ein cyfoedion. Dŷn ni wedi ein trapio gan ddibyniaethau. Dŷn ni wedi trio newid dro ôl tro, ond does gynnon ni mo'r pŵer i ddianc. Daeth Iesu i roi i ni'r pŵer hwnnw.
- Daeth Iesu i'n hadfer. Dŷn ni i gyd yn hiraethu i adfer rhannau o'n bywyd sydd wedi'u colli. Heb Grist, dyn ni'n hiraethu i adfer ein nerth, ein hyder, ein henw da, ein diniweidrwydd, a'n perthynas â Duw. Dim ond Iesu all wneud hynny.
- Daeth Iesu i'n hailgysylltu. Mae llawer o bobl yn meddwl y bydd Duw'n eu cosbi os down nhw 'nôl ato. Ond dydy Duw ddim yn flin hefo ti. Mae e'n ysu i'th gael yn ôl. Daeth Iesu i'r byd ar y Nadolig cyntaf i'n hailgymodi â Duw, a rho i ni harmoni ag e o'r newydd.
- Daeth Iesu i'w roi ei hun yn rhodd i ni. Mae llawer gormod ohonom yn dathlu ei ben-blwydd heb ei rodd rad ac am ddim o iachawdwriaeth. Blwyddyn ar ôl blwyddyn dydy'r rhodd hwn ddim yn cael ei agor. Dydy hynny ddim o unrhyw fudd! Cefaist dy wneud gan Dduw ac er mwyn Duw. Hyd nes y byddi'n deall hynny, bydd bywyd ddim yn gwneud unrhyw synnwyr.

Y Nadolig hwn, agora'r rhodd bwysicaf rwyt wedi'i gael erioed: perthynas newydd gyda Duw drwy Iesu.

*Awdur gwreiddiol: Rick Warren (cyf. Tudur Jones) defnyddiwyd trwy ganiatâd You Version*




# Gogoniant yn y Goruchaf

Rhoddwn iddo'r gogoniant,
Arglwydd y greadigaeth,
a dyfnder diderfyn ein bod a'n byw,
am iddo osod sêr y bore
yn llachar uwch tywyll fyd,
a'r un seren loyw
i ddangos i ddoethion eu ffordd.

Rhoddwn iddo'r gogoniant,
Rhagluniwr yr heddwch dwfn
a Lluniwr y waredigaeth,
am iddo roi cyfoeth mewn llety llwm
ac anfeidroldeb mewn preseb bach,
nes tynnu bugeiliaid y paith
i ryfeddu a phenlinio.

Rhoddwn iddo'r gogoniant,
Tywysydd yr amseroedd
a Pharatöwr y gwyrthiau,
am iddo ddeffro'r gân
ar y bryniau hen,
a dwyn y gobaith i galonnau,
am fod sypyn y gwely gwair
yn ddwyfoldeb i gyd.

Rhoddwn iddo'r gogoniant,
Y Gair uwchlaw'r geiriau,
a'r ystyr sy'n galon i'r cread,
am iddo roi lliw ar berthi
a harddwch ar goed,
a'r perffeithrwydd tragwyddol
mewn baban bach.

Rhoddwn iddo'r gogoniant
am Dywysog tangnefedd,
ac am ewyllys dda ei Nadolig Ef.

**W. Rhys Nicholas**



# Dwy natur mewn un person

'Yn y dechreuad yr oedd y Gair; yr oedd y Gair gyda Duw, a Duw oedd y Gair ... A daeth y Gair yn gnawd a phreswylio yn ein plith, yn llawn gras a gwirionedd; gwelsom ei ogoniant ef, ei ogoniant fel unig Fab yn dod oddi wrth y Tad.'

(Ioan 1:1, 14)

Nid genedigaeth Iesu ym Methlehem oedd cychwyn ei fodolaeth. Gan mai Iesu yw 'Gair Duw' ac Ail Berson y Drindod, mae wedi bodoli gyda Duw'r Tad a'r Ysbryd Glân ers tragwyddoldeb yn undod y Drindod. Wrth gychwyn ei efengyl yn y Testament Newydd, mae'r Apostol Ioan yn datgan hyn yn gwbl glir: 'Yn y dechreuad yr oedd y Gair; yr oedd y Gair gyda Duw, a Duw oedd y Gair' (Ioan 1:1).

Ond ym mhreseb Bethlehem Jwdea, daeth Iesu – heb roi'r gorau i'w ddwyfoldeb – yn berson dynol. Neu, fel y mae Ioan yn ei ddweud: 'daeth y Gair yn gnawd a phreswylio yn ein plith' (Ioan 1:14). Nid dim ond corff dynol wnaeth Iesu ei gymryd yn y preseb ond 'natur' ddynol hefyd. Hynny yw, popeth sy'n gwneud person dynol yn berson dynol: ein hemosiynau, ein cyneddfau, ein hanian, ein priodoleddau. Mae Iesu felly'n gwybod sut beth yw bod yn wan, sut beth yw cael ein temtio, sut beth yw llwgu, sut beth yw profi poen, sut beth yw marw.

### Perffaith

Er hynny, y gwahaniaeth sylfaenol rhyngom ni ac Iesu yw bod ei natur ddynol ef yn gwbl ddibechod. Dyma pam mae awdur y llythyr at yr Hebreaid yn disgrifio Iesu trwy ddefnyddio'r geiriau canlynol: 'Nid archoffeiriad heb allu cyd-ddioddef â'n gwendidau sydd gennym, ond un sydd wedi ei demtio ym mhob peth, yn yr un modd â ni, ac eto heb bechod' (Hebreaid 4:15). Mewn geiriau eraill, mae ei natur ddynol yn rhydd o bechod. Oni bai am hyn, ni fyddai'n gallu ein hachub rhag ein pechodau. Ni fyddai'n gallu cyflwyno aberth perffaith dros ein pechodau ar y groes.

Felly, mae gan Iesu Grist ddwy natur: natur ddynol a natur ddwyfol. Er hynny, nid dau berson mewn un corff yw Iesu; nid yw Iesu'n ddynol weithiau ac yn ddwyfol weithiau. Nid yw ei natur ddynol yn cyfaddawdu â'i ddwyfoldeb; nid yw ei natur ddwyfol yn cyfaddawdu â'i ddyndod. Yn hytrach, mae ei natur ddwyfol a'i natur ddynol wedi'u huno gyda'i gilydd ym *mherson* Crist. Mae Iesu yn berffaith ddynol ac yn berffaith ddwyfol.

### Heb gymysgu

Ond er bod y ddwy natur wedi'u huno gyda'i gilydd yn Iesu, nid yw hynny'n golygu eu bod nhw wedi'u cymysgu â'i gilydd. Hynny ydy, nid yw dwyfoldeb Iesu yn troi yn ddyndod, nid yw dyndod Iesu yn troi yn ddwyfoldeb. Petai hynny wedi digwydd, yna ni fyddai Iesu yn *gwbl* ddynol ac ni fyddai ychwaith yn *gwbl* ddwyfol. Ond ym mherson Iesu Grist mae'r ddwy natur wedi'u huno gyda'i gilydd heb gymysgu â'i gilydd. Gallwn ni ddweud felly fod Iesu yn *gwbl ddynol* ac yn *gwbl ddwyfol* yn rhinwedd ei berson. Mae diwinyddion yr oesoedd wedi galw'r athrawiaeth allweddol hon yn 'undod hypostatig' (*hypostatic union*). Am athrawiaeth ogoneddus sy'n ymestyn ein meddyliau dynol!

### Ann Griffiths

Dyma'r ffordd wnaeth Ann Griffiths grynhoi'r athrawiaeth hon:

O! am gael ffydd i edrych
Gyda'r angylion fry
I drefn yr iechydwriaeth,
Dirgelwch ynddi sy;
Dwy natur mewn un Person
Yn anwahanol mwy,
Mewn purdeb heb gymysgu,
Yn berffaith hollol trwy.

### Athanasiws

Dyma'r ffordd wnaeth Credo Athanasiws yn y bumed neu'r chweched ganrif ddiffinio'r athrawiaeth hon:

> Canys yr iawn ffydd yw credu a chyffesu fod ein Harglwydd ni Iesu Grist, Fab Duw, yn Dduw ac yn Ddyn. Duw, o sylwedd y Tad, wedi ei genhedlu cyn yr oesoedd; a Dyn, o sylwedd ei fam, wedi ei eni yn y byd; perffaith Dduw, a pherffaith Ddyn, yn bodoli o enaid rhesymol a chnawd dynol. Cydradd â'r Tad yn ei Dduwdod; a llai na'r Tad yn ei Ddyndod; yr hwn, er ei fod yn Dduw ac yn ddyn, er hynny, nid dau, ond un Crist ydyw; un, nid trwy drawsnewid y Duwdod yn gnawd ond gan gymryd y dyndod at Dduw; un i gyd oll; nid gan gymysgu'r sylwedd, ond trwy undod person.

'Credo Athanasiws' yn *Credaf* gol. Eifion Jones (Pwllheli: Cyhoeddiadau'r Gair, 2022), 22

Mae'r athrawiaeth hon yn gysur eithriadol pan mae bywyd yn galed. Ym mherson Iesu Grist, mae Duw yn gallu cydymdeimlo gyda ni'n llwyr yn ein dyndod. Ym mherson Iesu, mae Duw wedi profi sut beth yw gwendid, dioddefaint, galar, tristwch a phoen. Pan fyddwn yn wynebu'r fath brofiadau yn ein bywydau, mae'n gysur anferthol gwybod fod Duw'r cosmos yn uniaethu ac yn cydymdeimlo gyda ni.

**Gwilym Tudur**



Yr Adran
Gydenwadol

RHAGFYR 22 2022 RHIF 95/96

# Paratoi at y Nadolig Perffaith

Ers wythnosau, mae'r hysbysebion ar y teledu wedi bod yn llawn o gynghorion sut i fynd ati i greu'r Nadolig 'perffaith'! O archebu'r soffa newydd, y set deledu ddiweddaraf, y persawr a'r teclynnau technoleg mwyaf clyfar i'r holl bethau eraill fydd yn siŵr o wneud y Nadolig hwn yn ddiwrnod 'perffaith' ym mhob ystyr. Yr un yw'r anogaeth gan bob un hysbyseb: gwariwch – mynnwch y gorau; trefnwch y loddest orau eto – archebwch y danteithion gorau posib mewn da bryd. Mae hysbysebion yr archfarchnadoedd yn canolbwyntio ar y bwydydd moethus, drud, ac yn anelu at y ganran honno o'r farchnad a fydd yn gwario'n drwm eto eleni. Yn naturiol, apelio at gynulleidfa sydd â digon o bres yn eu pocedi yw amcan yr archfarchnadoedd, ac o wylio hysbysebion cwmnïau fel Waitrose, M&S a'u tebyg, gwerthu nwyddau egsotig a drud yw'r nod.




Yn ôl un amcangyfrif, fe fydd aelwydydd Cymru ar gyfartaledd yn gwario dros £1,400 ar drefniadau'r Nadolig, gan gynnwys gwariant ar anrhegion, bwydydd a diodydd a phartïon yn y cyfanswm. Mae sawl archfarchnad eisoes yn darogan Nadolig prysur a llewyrchus, yn arbennig ar werthiant y nwyddau premiwm. Y cyfan er mwyn creu'r diwrnod 'perffaith'.

Ond gwyddom y bydd y realiti'n wahanol iawn i lawer. Yn ôl ystadegau'r heddlu, mae'r galwadau i ddelio â thrais yn y cartref ar eu huchaf dros gyfnod y Nadolig bob blwyddyn, a phlant yn aml yn cael eu dal yn y canol. Nid yw gwario ar oferedd yn sicrhau hapusrwydd na dedwyddwch ar yr aelwyd, hyd yn oed lle mae digonedd o arian i brynu'r 'Nadolig perffaith' hwn. Mewn cyfnod heriol i lawer o deuluoedd, gallwn ninnau geisio bod yn effro i sefyllfaoedd lle mae'r rhai bregus mewn perygl o fewn ein cymunedau, gan gofio bod yna nifer o fudiadau fel Achub y Plant, NSPCC, Cymorth i Ferched ayyb ar gael yn barod i gamu i mewn i gynnig cefnogaeth.



Ynghanol hyn i gyd, fe fydd canran gynyddol o'r boblogaeth yn wynebu Nadolig llwm a heriol, â thlodi a phrinder bwyd a gwres yn broblem wirioneddol i lawer iawn o gartrefi. Mae'r banciau bwyd eisoes yn sôn am y galw cynyddol sydd ar eu gwasanaeth, ac yn wir bryderus wrth ystyried sut fyddan nhw'n gallu ymdopi dros yr wythnosau nesaf. Mewn cyfweliad arbennig ag Archesgob Cymru, Andrew John, mae Arwel Ellis Jones, un o'r rhai sy'n gyfrifol am redeg Banc Bwyd Arfon yng Nghaernarfon, yn cyfeirio at y cynnydd sylweddol mewn defnyddwyr wrth agosáu at y Nadolig. Mae ystadegau'r 12 mis diwethaf yn dangos cynnydd o 76% yn nifer y rhai sy'n ddibynnol ar Fanc Bwyd Caernarfon, ac mae'r pwysau ar y gwirfoddolwyr yn dwysáu. I wylio'r cyfweliad ag Arwel yn llawn, ewch i safle'r Eglwys yng Nghymru ar eu sianel Youtube: https://youtu.be/zNivjHOZo_s

Diolchwn am bawb sy'n cefnogi gwaith y banciau bwyd yn ein cymunedau, ac atgoffwn ddarllenwyr *Cenn@d* y gallwn ninnau gefnogi drwy roi bwyd yn y basgedi pwrpasol yn ein harchfarchnadoedd, neu hyd yn oed trefnu casgliadau wythnosol yn ein capeli. Byddai sawl banc bwyd ar hyd

*(parhad ar y dudalen nesaf)*

## *Paratoi at y Nadolig Perffaith*

*(parhad o dudalen 1)*



a lled Cymru hefyd yn falch o wasanaeth gwirfoddolwyr newydd. Tybed a all hyn fod yn rhan o addunedau blwyddyn newydd rhai ohonom?

Hanes arall a ddaeth i'n sylw ar y cyfryngau Cymreig oedd profiad y Tad Dominic Cawdell, ficer ifanc yn ardal Treffynnon, oedd yn cyfeirio yn y newyddion at y ffaith ei fod yn gyson mewn dagrau wrth geisio ymdopi â phroblemau tlodi yn ei fro. Bob dydd Llun mae ef a rhai o aelodau ei eglwys yn cynnal gwasanaeth 'Y Bwrdd' rhwng 11yb. a 2yp. Mae'r sawl sy'n troi i fyny'n cael cinio poeth a phwdin, a phob math o bethau eraill – ac mae hyn yn cael ei werthfawrogi'n fawr. Dydd Llun diwethaf fe lwyddwyd i fwydo 196 o bobl yn yr eglwys, a does neb byth yn cael ei droi i ffwrdd yn waglaw.

I fyny'r grisiau maen nhw'n rhedeg 'archfarchnad' syml, a phan fydd y rhai sy'n derbyn eu cinio am ddim yn clywed eu rhif yn cael ei alw, cânt fynd i fyny i'r siop a dewis deg eitem o fwyd am £2. Mae'r Tad Dominic hefyd yn cynnal gwasanaeth cymun byr am 11.30 fel rhan o'r arlwy, a'r hyn sy'n galondid iddo ydy fod nifer cynyddol yn cael eu bedyddio ac yn dod yn rhan o fywyd yr eglwys yno. Bydd yntau ac aelodau Eglwys Pedr Sant yn brysur iawn eto eleni'n paratoi cinio Nadolig i gynifer â 60 o bobl sydd ar eu pen eu hunain ar ddydd Nadolig. Maent yn cael cymorth ariannol gan aelodau'r eglwys a Chyngor y Dref, gan hefyd dderbyn cymorth ymarferol gan rai o'r bobl sy'n dod i'r cinio. Ond mae'n andros o waith caled, meddai Dominic, i gynnal y gwasanaeth hwn yn wythnosol! Gwyddom am tua dwsin o eglwysi ar hyd a lled Cymru a fydd yn agor eu drysau ar ddydd Nadolig i gynnig cinio Nadolig poeth i'r unig a'r tlawd, a diolchwn am y dystiolaeth arbennig yma o weld gwaith yr Efengyl ar waith mewn ffordd gwbl ymarferol.

Un elusen sy'n cynnig cefnogaeth ymarferol i deuluoedd mewn tlodi yw Christians Against Poverty. Maent yn amcangyfrif bod hyd at 14 miliwn o bobl bellach yn byw mewn tlodi ym Mhrydain, ac maent yn cynnig gwasanaeth cynghori a chefnogi. Mae mwy o wybodaeth ar eu gwefan: https://capuk.org/.

*Aled Davies*

# Cinio Nadolig Gweinidogion Bro'r Preseli

Yng ngeiriau un o feirdd y Cilie, 'Ganol gaeaf noethlwm / cwynai'r rhewynt oer', ar fore sythlyd, gaeafol, mwynhaodd Cymdeithas Gweinidogion Bro'r Preseli gymdeithas gynnes yng Ngaffi Beca, fore dydd Mawrth, 13 Rhagfyr, yn ein cyfarfod cyn y Nadolig. Ein siaradwr gwadd eleni oedd Jon Meirion Jones, Llangrannog, un o dylwyth y Cilie, a rannodd gyda ni lawer o hanesion difyr am deulu'r Cilie yn ogystal â nifer o'i englynion a barddoniaeth beirdd y Cilie.

Yna cawsom fwynhau o amgylch y bwrdd ein cinio Nadolig blynyddol. Braf oedd cael cwmni ein Cyn-gadeirydd, y Parch. Howell Mudd, gyda ni, wedi blwyddyn anodd yn ei hanes, a chawsom ddymuno'n dda i'n Cadeirydd presennol, y Parch. Ken Thomas, sy'n ymddeol ddiwedd y flwyddyn. Dymunodd yntau Nadolig Llawen i bawb ohonom.

*Emyr Gwyn Evans*
*Ysgrifennydd*



# TUDALEN Y PLANT




*Cofiwch bod* ***Seren Bethlehem*** *a* ***Comic Beiblaidd Nadolig***
*- dau gomic Beiblaidd Nadolig i blant ar gael gan Cyhoeddiadau'r Gair neu o'ch Siop Gymraeg leol.*

*Testun © 2017 Toni Matas. Lluniau © 2017 Picanyol. © Addasiad Cymraeg: Mair Jones Parry. Defnyddiwyd trwy ganiatâd Anno Domini Publishing a Cyhoeddiadau'r Gair.*

## FAINT?

1. Faint o filwyr fedri di weld?
2. Faint o wahanol bobl fedri di gyfrif? Paid â chyfrif yr un bobl ddwywaith.
3. Faint o weithiau mae llun Mair i'w weld?
4. Faint o weithiau rydym ni'n gweld yr asyn?

## CHWILAIR

Roedd yr Ymerawdwr eisiau i'w bobl i gyd gael eu cyfrif. Faint o enwau fedri di gyfrif yn y chwilair?

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A | P | L | L | O | N | P | A | P |
| B | E | U | Y | D | A | F | Y | DD |
| D | S | O | U | C | I | L | E | I |
| I | N | J | Y | L | H | C | S | O |
| A | C | O | M | A | I | R | U | P |
| G | A | S | P | O | M | C | S | G |
| O | P | E | D | R | R | I | U | R |
| S | D | FF | M | E | M | R | A | E |
| E | T | H | P | O | N | W | | |
| F | B | A | P | L | A | B | | |

## BETH YW'R GWAHANIAETHAU?

Fedri di ddod o hyd i chwech o wahaniaethau rhwng y ddau filwr isod a'r milwyr yn llun cyntaf y tudalen stori?



cynnal

# Gweddi ar gyfer Nadolig 2022

Mam Tawelwch, sy'n dyheu am roi genedigaeth,
Crist y plentyn yn y groth, sy'n dyheu am gael ei eni,
sy'n aros, yn amser Duw,
sy'n anadlu, yn enw Duw,
Down atat,
yn ysig. yn ddrylliedig,
gyda'n hunan-obsesiynau'n dod i'r wyneb,
Down at Oleuni dy Bresenoldeb,
ac fe weddïwn ...

Yn nüwch y nos, yn y stabl,
daw Iesu i'r byd,
Ym mhoenau dirdynnol yr esgor,
daw bywyd newydd.
Dathliad.

Mae'r Crist yn cael ei eni bob dydd,
yn llety ein calonnau.
Yn nhywyllwch ein poen,
gwelir Bywyd Newydd yn egino.

Boed i gariad pur lifo,
trwy dy galon,
trwy dy feddwl,
trwy bob rhan ohonot,
gan orlifo,
er mwyn i eraill gael eu trochi ynddo.

Nid yw'n dasg hawdd,
pan yw'r galon yn llawn trallod,
yn llawn gofid.
Pryder ac ymlyniad,
wedi'u lapio mewn hunan-dosturi,
hunan-amheuaeth,
a phryder am yr hunan...

Sut all y Crist gael ei eni,
os ydw i'n rhy brysur,
yn chwilio am...
ateb gwahanol,
diddanwch gwahanol,
esgus arall,
yn llawn barn,
disgwyliadau
a hunan-les,
fi...fi..fi...

Beth petai'r *fi* ddim yn bodoli?

Beth petai yna ddim byd ond
purdeb a dathliad o Gariad,
mewn undeb ag arall,
Â bywyd,
Â Phopeth.

Mam. Duw Dad,
Diolch am yr iachâd roddaist i ni.
Mae'r flwyddyn hon yn dirwyn i ben.

Bellach rydyn ni'n edrych ymlaen at y flwyddyn newydd gyda gobaith a hyd yn oed llawenydd.

Gwyddom fod yn rhaid cerdded os am deithio ar hyd ffordd adferiad, ac er bod hyn yn anodd, rwyt ti'n cerdded gyda ni bob cam o'r daith, yn ein hannog ymlaen, weithiau wrth ein cymell, weithiau wrth sibrwd yn dawel.

Pan fyddwn ni'n methu, mae Cariad yno i ddweud wrth y galon, "Paid rhoi fyny, paid rhoi fyny..."

Nid yw'r ffordd yn dod i ben yno, ond mae pen y daith i'w weld,

Weithiau...

Y diwedd yw'r dechrau,
Y ffordd yw'r iachâd,
Bydd y sawl sy'n sefyll ar y dechrau yn gweld y diwedd...

Dduw cariadus,
Gweddïwn am y nerth i ddal ati,
Am ddewrder i gerdded tuag at y golau,
gan guddio dim,
gan gyfaddef popeth,
gan feio neb,
gan faddau i bawb.

Gweddïwn dros bawb sydd ar ffordd adferiad, pa un a ydynt yn gwybod hynny ai peidio.

Hefyd dros y rhai nad ydynt hyd yn oed

yn deall eto,
eu bod yn sâl,.
Yn y byd hwn o ymddatod,
lle mae teyrnas nefoedd yn ymagor
yn ddwfn o fewn pob enaid, pob creadur, planhigyn a chraig,
mae llais yr Hwn yw, yr Hwn fu, a'r Hwn fydd
yn dweud. "Adre, fy mhlentyn.
Tyrd Adre.".

Bydded i Dduw fod gyda thi,

Pwy bynnag wyt ti sy'n darllen ac yn gweddïo yn awr. Bydded i gariad Duw dy amgylchynu,

a thangnefedd Duw,

yn Dad, Mab ac Ysbryd Glân

dy lenwi â'r ddealltwriaeth dy fod yn

hardd ac yn rhydd,

yn un y mae'r Anwylyd yn ei garu,

yn un y mae dy enw yn Llyfr y Bywyd

y Nadolig hwn, a hyd byth.

Amen.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:
wynfordellisowen@adferiad.org
Ffôn: 07796 464 045

www.cynnal.wales

# O ‘Elltydd Melindwr’ i Sŵn y Jiwbili
## Dathlu daucanmlwyddiant geni Ieuan Gwyllt

Fyddwch chi’n canu ‘Wele fi yn dyfod’ (emyn 454, *Caneuon Ffydd*) dros y Nadolig? Fyddwch chi’n meddwl am awdur y geiriau?

Drycinog a gaeafol iawn oedd hi ddwy ganrif yn ôl, nos Wener, 27 Rhagfyr 1822, pan anwyd mab i Evan ac Elizabeth Roberts, Tanrhiwfelen, Capel Seion, ger Aberystwyth. Roedd y teulu’n mynychu capel Pen-llwyn, ac yno y cafodd y mab, John, ei fedyddio ar 30 Ionawr 1823. Y John hwn fyddai’n ysgrifennu ‘Wele fi yn dyfod’, a gyhoeddwyd yn y cylchgrawn *Blodau Cerdd* yn 1852.

Roedd John wrth ei fodd yn crwydro’r caeau a’r bryniau o gwmpas ei gartre, ac wrth ddechrau barddoni, cymerodd yr enw barddol ‘Ieuan Gwyllt Gelltydd Melindwr’. Gan fod hynny’n dipyn o lond ceg, cafodd ei dalfyrru’n weddol fuan i ‘Ieuan Gwyllt’, a than yr enw hwnnw mae’n cael ei adnabod a’i gofio.

Bu’n glerc gyda chwmni o fferyllwyr yn Aberystwyth, yna’n cadw ysgol, yna’n glerc eto gyda chwmni o gyfreithwyr. Yn 1852 ymatebodd i hysbyseb am is-olygydd i bapur newydd *Yr Amserau* yn Lerpwl. Golygydd y papur oedd y bardd-bregethwr William Rees, ‘Gwilym Hiraethog’. Disgwyliai Ieuan mai ei waith ef fyddai cyfrannu erthyglau cyffredinol ac ambell erthygl olygyddol, ond pan gyrhaeddodd y swyddfa, deallodd fod y baich yn mynd i ddisgyn yn bennaf arno ef. Datblygodd yn newyddiadurwr pendant ei farn a llym ei dafod, ac yn ystod Rhyfel y Crimea digiodd arweinwyr ei enwad, y Methodistiaid Calfinaidd, trwy feirniadu polisi rhyfelgar y llywodraeth. Ond doedd e ddim yn un i boeni’n ormodol am farn eraill.

Roedd Lerpwl yn bwysig iddo am reswm arall. Er pan oedd yn fachgen roedd wedi ymddiddori mewn cerddoriaeth, ac yn Lerpwl cafodd gyfle i ymuno â’r Gymdeithas Ffilharmonig ac i fynychu cyngherddau yno ac yn Llundain. Ymddiddorodd yng nghanu cynulleidfaol capeli’r ddinas, a dechrau darlithio ar gerddoriaeth. Dechreuodd hefyd gasglu tonau at ei gilydd gyda’r bwriad o ddarparu casgliad safonol o’r tonau gorau at ddefnydd ei gyd-wladwyr.

Penllanw’r gwaith o gasglu oedd cyhoeddi’r *Llyfr Tonau Cynulleidfaol* yn 1859. Anelodd at osod safon newydd i’r cynulleidfaoedd gyda thonau wedi eu trefnu’n syml ac urddasol, yn unol â’i athroniaeth mai hynny’n unig oedd yn gweddu i wasanaeth crefyddol. Dechreuodd ar grwsâd i wella caniadaeth y capeli, a defnyddiodd sawl offeryn i’w hyrwyddo: y *Llyfr Tonau* ei hunan, a werthodd yn ei filoedd, a chylchgrawn *Y Cerddor Cymreig*, a olygodd Ieuan o’i ddechreuad yn 1861 hyd ei ddiwedd yn 1873. At hynny, cefnogodd nodiant newydd y Tonic Sol-ffa, a gyflwynwyd i’r Cymry gan ei gyfaill o Lerpwl, Eleazar Roberts. Dechreuodd Ieuan hyrwyddo’r nodiant newydd fel cyfrwng i ddysgu canu’n gywir, ac fe gyhoeddodd argraffiad sol-ffa o’r *Llyfr Tonau Cynulleidfaol* yn 1863.

Roedd yn adeg dda i hyrwyddo gwelliant yn y canu. Digon amrwd, yn ôl adroddiadau’r cyfnod, oedd llawer o ganu cynulleidfaol y capeli, gyda phobl yn mynd allan o’r capel wedi’r bregeth tra oedd rhyw ran arall o’r gynulleidfa wrthi’n canu pennill. Tonau blodeuog ac ailadroddus oedd llawer o’r tonau. Hefyd, wedi cynnwrf Diwygiad 1859, roedd cynulleidfaoedd yn lluosogi, ac erbyn yr 1860au roedd yr enwadau yn dechrau mynd yn fwy ffurfiol a ‘pharchus’. Felly, am resymau o drefn yn ogystal â rhesymau cerddorol, roedd awydd i wella’r canu. A choron ar y cyfan oedd datblygu’r gymanfa ganu yn offeryn er lles caniadaeth, symudiad a hyrwyddodd Ieuan yn egnïol.


Llun: Paentiad o Ieuan Gwyllt gan Evan Williams. Llyfrgell Genedlaethol Cymru

Gwelodd newid yn ei fywyd ei hun. Symudodd i Aberdâr yn 1858 i olygu papur newydd *Y Gwladgarwr*; yna yn 1859 cafodd wahoddiad i fugeilio capel Pant-tywyll, Merthyr Tudful. Ordeiniwyd ef yn weinidog yn 1861. Symudodd i’r Capel Coch, Llanberis, yn 1865, ac ymddeol i’r Fron, ger Caernarfon, lle bu farw yn 54 oed ar 14 Mai 1877.

Erbyn hynny roedd wedi cychwyn ar genhadaeth arall, sef hyrwyddo emynau Sankey a Moody, a gyfieithodd yn y casgliad *Swn y Juwbili*. Yn ôl pob sôn, doedd Ieuan ddim yn bregethwr nac yn siaradwr gafaelgar, er cryfed ei argyhoeddiadau. Fe’i swynwyd gan Sankey a Moody am eu bod yn llwyddo i gyrraedd eu cynulleidfa, efallai mewn ffordd na lwyddodd ef, yn ei dyb ei hunan o leiaf. Ond o feddwl am faint ei ddylanwad ymhlith pobl ei gyfnod, gallwn yn hawdd ei gydnabod yn un o’r mawrion.

*Rhidian Griffiths*

**S4C** ***Dechrau Canu, Dechrau Canmol***
**Sul, 25 Rhagfyr, am 7.15yh**
Nia sy’n cyflwyno rhaglen arbennig i nodi pen-blwydd yr arweinydd byd-enwog Owain Arwel Hughes yn 80 oed

**BBC radio cymru** **Sul, 25 Rhagfyr, am 7yb ac 1yp**
Oedfa’r Dolig dan arweiniad Beti Wyn James a chriw ieuenctid Capel y Priordy, Caerfyrddin

***Caniadaeth y Cysegr***
**Sul, 25 Rhagfyr, am 2:30yp**
R. Alun Evans yn cyflwyno’r rhaglen gyntaf mewn cyfres yn trafod gwahanol themâu. Heddiw, y Nadolig yw’r thema

**S4C** ***Dechrau Canu, Dechrau Canmol***
**Sul, 1 Ionawr m 7.30yh**
Bydd Ryland yn Nyffryn Aman yn edrych ymlaen at Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd 2023. Byddwn yn ymuno â chynulleidfa Cymanfa’r Cyhoeddi yng Nghapel Gellimanwydd, Rhydaman, o dan arweiniad Meinir Richards.

**BBC radio cymru** **Sul, 1 Ionawr, am 12yp**
Oedfa dan arweiniad Ainsley Griffiths, Caerfyrddin

***Caniadaeth y Cysegr***
**Sul, 1 Ionawr, am 4:30yp**
R. Alun Evans sy’n cyflwyno’r ail raglen mewn cyfres yn trafod gwahanol themâu. Dechrau a diwedd blwyddyn yw’r thema heddiw

I weld y cyhoeddiad digidol *Cenn@d* yn llawn, dilynwch y ddolen hon: www.cennad.cymru
(Cyhoeddir *Cenn@d* ar ran Undeb Bedyddwyr Cymru ac Eglwys Bresbyteraidd Cymru, a rhennir tudalennau cydenwadol y cyhoeddiad ag Undeb yr Annibynwyr Cymraeg)

## Golygyddol

# Y Brenin Herod



Mathew yn unig sy'n cyfeirio at yr hanes hwn. Daeth brenhinoedd o'r dwyrain i chwilio am frenin newydd. Wrth ddilyn seren aethant i balas Brenin Jwda, sef Herod a'i holi, 'Ble mae brenin yr Iddewon?' Tipyn o *faux pas*, does bosib! Dychmygwch y sefyllfa. Aethant i balas brenin – yr un sydd ar yr orsedd – gan ofyn iddo, 'Ble mae'r brenin newydd?' Mae fel petai rhywun yn mynd i mewn i Balas Buckingham a gofyn i Carlo'r 3ydd – brenin Lloegr – 'Ble mae'r brenin?' Sut fyddai ef yn ymateb?

Ond mae Herod yn gyfrwys ac yn chwimwth ei feddwl. Wedi clywed y cwestiwn y mae'n ymgreinio'n gyfoglyd gan ddweud, 'Ewch i Fethlehem a phan fyddwch wedi dod o hyd i'r brenin dewch yn ôl yma i ddweud ble mae, er mwyn i mi fynd yno i'w addoli.' Wrth sgwrs ei fwriad oedd mynd yno i'w ladd. Pan sylweddolodd Herod ei fod wedi ei dwyllo gan y brenhinoedd fe gollodd ei limpyn yn llwyr. Gorchmynnodd ladd pob plentyn gwryw o dan ddwy oed ym Methlehem.

Pam fod Herod yn gwneud hyn? Er mwyn amddiffyn ei goron a'i awdurdod ef ei hun. Roedd yn barod i gyflawni'r erchyllterau gwaethaf er mwyn diogelu ei fuddiannau ei hunan. Yr un yw natur llawer o arweinyddion a gwleidyddion yn 2022, fe wnânt unrhyw beth er mwyn gwarchod eu hawdurdod a'u cyfoeth eu hunain ac yn sgil hynny fe welwn anghyfiawnder, rhyfeloedd a dioddefaint. Hoffwn dynnu eich sylw at ddau beth ddaw i'r meddwl.

### Herod gwleidyddol

Mae cymeriadau fel Herod o'n cwmpas o hyd. Arweinyddion gwledydd ar hyd a lled y byd sy'n barod i wneud unrhyw beth er mwyn cynnal eu hawdurdod ac ymgyfoethogi. Rydym wedi gweld hyn yn ddiweddar ymhlith rhai o wleidyddion gwledydd Prydain. Maent yn ymddwyn yn llygredig gan droi pob dŵr i'w melinau eu hunain a rhoi cytundebau i ffrindiau a theulu sy'n dod ac arian mawr iddynt. Ar yr un pryd y maent yn gwneud toriadau llym i wasanaethau hanfodol cyhoeddus ac yn gwrthod codi cyflogau gweithwyr cyffredin. Y mae llawer o'r gweithwyr hyn ar eu cythlwng y Nadolig hwn ac yn gorfod streicio er mwyn cael cyflog teg. Thâl hyn ddim, y mae eu hymddygiad fel arweinyddion yn Herodanaidd, yn gwbl anfoesol ac anghyfiawn.

### Herod personol

Gall ymateb Herod i Iesu fod yn ddarlun o bawb ohonom. Yn Rhufeiniaid 5 mae Paul yn sôn mai cyflwr naturiol y galon ddynol yw gelyniaeth tuag at Dduw. Ysgrifenna, 'Oherwydd os cymodwyd ni â Duw trwy farwolaeth ei Fab pan oeddem yn elynion, y mae'n sicrach fyth, ar ôl ein cymodi, y cawn ein hachub trwy ei fywyd.' (Rhuf. 5:10)

Mae'r cyflwr dynol yn reddfol y dweud, 'Fi yw Brenin fy mywyd. Does neb yn cael dweud wrthyf fi beth y dylwn ei wneud.' Gallwn roi'r argraff ein bod mor barod i gydweithio ac i ufuddhau, ond mae'r reddf hon yn gryf ynom, hyd yn oed os ydym yn ei gwadu. Mae yn sicr ynof fi. Dywed y Beibl fod y drygioni yn y byd yn tarddu o'n hunanoldeb a'n hunangyfiawnder ni ein hunain. Ynom y mae Herod bychan ar waith. Nid ydym am wasanaethu Duw na phobl eraill ac rydym am edrych ar ôl ein hunain a'n buddiannau yn gyntaf. A phan mae'r Brenin Iesu yn dod gan ddweud ei fod eisiau teyrnasu yn llwyr ar ein bywyd a'n calonnau, rydym yn amharod iawn i blygu glin ac ildio iddo.

Efallai ein bod yn awyddus i gael y manteisio o ddilyn Iesu fel cariad, help, nerth maddeuant a llawenydd – ond mae hynny'n wahanol i fod eisiau Duw ei hun ac Iesu yn Frenin arnom. Rhaid gofyn pwy mewn gwirionedd yw'r Brenin sy'n eistedd ar orsedd ein calonnau'r Nadolig hwn?

**Alun Tudur**

# ROBERT EVERETT: ARWR ANGOF?

Yn ôl un o bapurau dyddiol Cymru yn eu rhifyn a gyhoeddwyd ar22 Hydref eleni,

> 'The long lost story of a Welsh abolitionist preacher, who helped fleeing slaves in America, has been brought to light by an academic.'

Efallai fod enw'r Parchedig Robert Everett yn anghyfarwydd i nifer o ddarllenwyr y papur hwnnw ac i'r gohebydd, ond yn sicr dydy hynny ddim yn wir am drigolion Dinbych a'r cylch, yn enwedig aelodau Eglwys Annibynnol Lôn Swan, darllenwyr papur bro *Y Bigwn*, aelodau'r Gymdeithas Gymraeg lleol a nifer o unigolion eraill.



*Portread o Robert Everett yng nghyntedd Capel Lôn Swan*

Yn sicr dydy ei hanes ddim wedi diflannu o'r cof yn Nyffryn Clwyd.

Dechreuais ymddiddori yn y gŵr hynod hwn, a anwyd yn Gronant (Llanasa yn ôl rhai), ger Prestatyn, ym 1791, tra'n gwylio'r gyfres *Cymru Rhyfel Cartref America* ar S4C yn 2004. Cyflwynwyd y gyfres gan yr Americanwr Dr Jerry Hunter ac roedd sawl cyfeiriad at Robert Everett cyn i mi sylweddoli iddo fod yn weinidog yng nghapel Lôn Swan rhwng 1815 ac 1823, cyn ymfudo i'r Unol Daleithiau i ofalu am Eglwys Gymraeg Utica. Cyhoeddodd Dr Hunter y gyfrol *Llwch Cenhedloedd* i gyd-fynd â'r gyfres deledu, ac fe enillodd wobr Llyfr y Flwyddyn am 2004.

### America gaeth

Daeth mwy o sylw i Robert Everett yn 2006 mewn cyfres deledu arall gan Jerry Hunter ar S4C o'r enw *America Gaeth a'r Cymry*. Yn ôl gwneuthurwyr y gyfres ar y pryd, Everett '... oedd y dyn wnaeth fwy na neb i berswadio'i gyd-Gymry yn America i ddiddymu caethwasiaeth.

Roedd Robert Everett yn un o sylfaenwyr The New York Anti-Slavery Society, ac am flynyddoedd bu'n defnyddio'r wasg Gymraeg yn America i ddadlau'n frwd dros achos y caethweision.'

### Ymgyrch yn erbyn caethwasanaeth

Yn 2007 cyhoeddodd Dr Hunter *I Ddeffro Ysbryd y Wlad: Robert Everett a'r Ymgyrch yn erbyn Caethwasanaeth Americanaidd* sydd, yn ôl gwefan Ysgol y Gymraeg Prifysgol Bangor, yn 'rhoi ar gof a chadw hanes y gweinidog gyda'r Annibynwyr yng nghapel Lôn Swan, Dinbych a ddaeth yn y man yn un o brif ddiddymwyr y fasnach gaethwasanaeth yn America yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg.' Dyma oedd gan y Parchedig Dafydd Owen, un o blant Lôn Swan, i ddweud amdano yn ei lyfr *Gwylio Gorymdaith (Dathliad dau gant a hanner Capel Lôn Swan, Dinbych: 1742-1992)*. 'Bu'n gweinidogaethu'n ffyddlon a llwyddiannus am wyth mlynedd ... Priododd Robert Everett ag Elizabeth, merch Thomas Roberts, Rossa Fawr, diacon yn Lôn Swan fel ei fab ar ei ôl, a

*parhad ar y dudalen nesaf*

## ROBERT EVERETT – *parhad*

gŵr y bu i'w deulu gyfrannu'n helaeth tuag at ffyniant Ymneilltuaeth yn Nyffryn Clwyd. Dywedir fod Mrs Everett yn un o arloeswyr yr Ysgol Sul yn Ninbych ...' Cyflawnodd Everett cymaint yn ei fywyd a dim ond crafu'r wyneb mae'r erthygl hon. Bu farw ym 1875 ac fe gladdwyd yn Remsen, talaith Efrog Newydd.




*Parchg Graham Floyd a Maer Dinbych, y Cynghorydd Colin Hughes yn dadorchuddio cofeb i Robert Everett ar wal y capel yn 2008*

### Cydnabod cyfraniad

Ond o'r diwedd daeth cydnabyddiaeth deilwng iddo yn ei wlad fabwysiedig yn dilyn ymgyrch gan y Saint David's Society of Utica a'r Remsen Steuben Historical Society. Cafodd ei enw ei ychwanegu i'r National Abolitionist Hall of Fame and Museum mewn seremoni rhwng 21–23 Hydref eleni. Mae'r amgueddfa yn Peterboro, Efrog Newydd, yn 'oriel genedlaethol o anfarwolion y rhai fu'n ymladd caethwasiaeth.' Yn ystod y seremoni cafwyd anerchiad gan yr Athro Hunter drwy gyfrwng fideo ac roedd nifer o ddisgynyddion Everett yn bresennol. Yn ogystal â hyn mae safle eglwys y Parchedig Everett newydd ei chofrestru'n safle hanesyddol gan Dalaith Efrog Newydd ac mae'r Remsen Steuben Historical Society wedi creu arddangosfa amdano yn Utica.

'The long lost story of a Welsh abolitionist preacher?' Nid i bawb mae'n amlwg. Dywedodd Ifor ap Glyn, cynhyrchydd a chyfarwyddwr *America Gaeth a'r Cymry*, fu'n byw yn Ninbych am gyfnod, fod Robert Everett yn 'un o arwyr angof Cymru.' Yn dilyn y digwyddiadau diweddar yn America, mawr obeithiaf nad yw'n angof mwyach.

**John Davies**

## GAIR AM AIR 5

Perthyn i bob iaith eiriau na ellir yn llawn a llwyr eu cyfieithu i iaith arall. Mae'r gyfres hon o fyfyrdodau yn ymdrin ag ambell un o'r geiriau diddorol rheini. Daw testun ein sylw heddiw o'r Arabeg: *gurfa*. Yn fras, *gurfa* yw'r mesur o ddŵr a ellir ei ddal yng nghledr eich llaw.

Yma, yn y gorllewin, rydym yn ymwybodol iawn o'n hanghenion emosiynol – yr angen am gariad, hunaniaeth, diogelwch, cysur a chymorth i fyw; ond cawn ein hamddiffyn i raddau helaeth rhag realiti amrwd ein hanghenion mwyaf sylfaenol. Tueddwn, er enghraifft, i gymryd dŵr glân yn gwbl ganiataol.



Mae'r glaw, sydd gymaint o destun cwyno gennym, a'r defnydd effeithiol o gronfa a phibell yn sicrhau cyflenwad cyson a digonol o ddŵr i bawb ohonom.

Ni wyddai'r Salmydd beth oedd bod mewn sefyllfa i gymryd dŵr yn ganiataol '... y mae fy enaid yn sychedu amdanat, a'm cnawd yn dihoeni o'th eisiau, fel tir sych a diffaith heb ddŵr.' (Salm 63:1 BCN) Nid jargon ysbrydol a delwedd farddonol yw'r syched hwn am Dduw, ond mynegiant o angen sylfaenol. I awduron y Beibl, roedd yr angen am ddŵr yn llawer mwy real nag ydyw i ni – weithiau yn argyfyngus o real. Roedd eu profiad hwy yn debyg iawn i brofiad miloedd ar filoedd o bobl ledled byd heddiw. Amcangyfrifir fod 663 miliwn o bobl heb ddŵr glân i'w yfed – 1 o bob 10 person ledled byd – a 2.5 biliwn heb garthffosiaeth ddigonol. Mae dŵr wedi ei lygru yn achosi 80% o afiechydon y byd.

Cymerwn ddŵr glân yn ganiataol, ac adlewyrchir hynny yn ein defnydd afradlon o'r adnodd mwyaf gwerthfawr. Mae'r cartref cyffredin yng ngwledydd Prydain yn defnyddio, mewn diwrnod arferol, tua 500 litr o ddŵr.

Llesol, heddiw felly fuasai dal gwerth *gurfa* o ddŵr yng nghledr ein llaw, a chan ystyried y dŵr hwnnw, cofio fod sicrhau digon o ddŵr yn frwydr ddyddiol i lawer gormod o blant Duw: y daith hir, y bwced trwm, y dŵr amhur, y blas cas. Gwnawn hyn nid er mwyn magu euogrwydd ac anobaith, ond i estyn cyfle i Grist i ddatod llinynnau trugaredd ein calon.

**Owain Llŷr**

## Gofalaeth Bro Nant Conwy



Roedd llawer o resymau dros lawenhau ar ddydd Sul 6 Tachwedd yng nghapel Siloam. Yn gyntaf cafwyd y sacrament bedydd lle bedyddiwyd Iori Idris Williams a hefyd croesawyd ei rieni Sioned ac Aled Williams yn aelodau newydd o'r eglwys. Croeso cynnes iawn i'r teulu annwyl yma a dymunwn bob bendith i'r dyfodol.

*Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:*
Y Parchg Ddr Alun Tudur
39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,
Caerdydd, CF23 9BS
*Ffôn:* 02920 490582
*E-bost:* aluntudur@btinternet.com

*Golygyddion*

Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,
Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,
LL49 9UE
*Ffôn:* 01766 513138
*E-bost:* IwanLlew@aol.com

Alun Lenny
Porth Angel, 26 Teras Picton
Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
*Ffôn:* 01267 232577 /
0781 751 9039
*E-bost:* alunlenny@hotmail.co.uk

*Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:*
Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc
Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe
ABERTAWE SA7 0AJ
*Ffôn:* 01792 795888
*E-bost:* undeb@annibynwyr.cymru

**Dalier Sylw!**
Cyhoeddir yr Adran Gydenwadol gan Bwyllgor Llywio'r Adran Gydenwadol ac nid gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a wnelo Golygyddion *Y Tyst* ddim â chynnwys yr Adran Gydenwadol.

# Dathlu'r Nadolig



*Drama'r Nadolig yng nghapel y Priordy, Caerfyrddin*



*Oedfa Nadolig Cana, Bancyfelin*

# DOD Â'R ACHOS I BEN YM METHEL, CEMAES YM MÔN

Gofid oedd gorfod dirwyn yr achos i ben ym Methel, ond fe wnaed hynny'n urddasol mewn cyfarfod yn y capel brynhawn Mercher, 30 Tachwedd, 2022. Llywyddwyd gan y Parchg J. Ronald Williams, Cadeirydd Cyfundeb Môn a chymerwyd rhan gan Mrs Enid Jones, un o aelodau Bethel; Mr Edward Morus Jones, ysgrifennydd y Cyfundeb, a'r Parchg Iwan Llewelyn Jones, mab y Parchg Gwyn Jones, a fu'n weinidog yr eglwys rhwng 1971 ac 1977. Bu Bethel yn eglwys fyw iawn, a thristwch oedd gorfod dod i'r penderfyniad o ddatgorffori.

Wedi'r gwasanaeth daeth y criw bach at ei gilydd i gaffi drws nesa i'r capel i gymdeithasu a chasglu atgofion. Yn y gwasanaeth hwnnw traddodwyd bendith gan y Parchg Emlyn Richards, cyn-weinidog y Presbyteriaid yng Nghemaes ac un sydd wedi byw yn y pentref ers 1962 ac wedi bod yn gefn i eglwysi o bob enwad ym mhen pella Môn ers blynyddoedd maith, a diolch iddo am yr hyn a wnaeth.

Bu Bethel yn gartref ysbrydol i amryw ohonom, a diolch am y dystiolaeth i Iesu Grist yno ers 1827 – 195 o flynyddoedd. Dymunwn yn dda i'r gweddill i'r dyfodol.

**Iwan Llewelyn**

*Y tu allan i'r capel*



*Y gynulleidfa tu mewn*



*Cyhoeddwyd gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ac argraffwyd gan Serol Print, Uned 13, Ystad Ddiwyd. Heol Milland, Castell-nedd, SA11 1NJ. Cofrestrwyd yn y Swyddfa Bost.*